
# Crynodeb o Strategaeth Systemau Trafnidiaeth Deallus Caerdydd

Gall moderneiddio Systemau Trafnidiaeth Deallus Caerdydd eich helpu i wneud y canlynol:

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cardiff Evolving Transport


Cynllunio teithiau'n rhwydd gan ddefnyddio sawl dull o deithio



Osgoi tagfeydd a mannau â lefelau uchel o lygredd



Cael hyd i Wybodaeth Amser Real fanylach am drafnidiaeth gyhoeddus







Mwynhau canol Dinas sy'n ddiogel ac yn fywiog



Byw mewn amgylchedd iachach



Cerdded a beicio'n fwy diogel

Caerdydd Un Blaned

Caerdydd Aer Glân
Clean Air Cardiff

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

Er mwyn cyflawni'r buddion a ddisgrifir isod
mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu Strategaeth Systemau Trafnidiaeth Deallus Ddrafft

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

Cardiff Evolving Transport

**Cynllunio teithiau'n rhwydd gan ddefnyddio sawl dull o deithio**

...trwy roi gwybodaeth yn uniongyrchol yn eich dwylo i'ch helpu i wneud y penderfyniadau gorau am lwybrau, mynediad lle mae tarfu, iechyd ac allyriadau $CO_2$.

**Mwy...**

**Osgoi tagfeydd a mannau â lefelau uchel o lygredd**

...trwy symud traffig i ffwrdd yn ddeinamig o dagfeydd a mannau â lefelau uchel o lygredd.

**Mwy...**

**Cael hyd i Wybodaeth Amser Real fanylach am drafnidiaeth gyhoeddus**

...trwy wella gwybodaeth amser real a systemau blaenoriaeth bysus.

**Mwy...**



.. trwy gyfyngu mynediad yn ddeinamig i draffig mewn ardaloedd hamdden a gwella'ch mynediad i ddata argaeledd parcio deinamig.

**Mwy...**

**Mwynhau canol Dinas sy'n ddiogel ac yn fywiog**

...trwy gyfyngu mynediad i gerbydau llygredig.

**Mwy...**

**Byw mewn amgylchedd iachach**

...trwy symud traffig i ffwrdd o lwybrau beicio a cherdded diogel a dymunol a gwella blaenoriaeth goleuadau traffig cerddwyr a beicwyr.

**Mwy...**

**Cerdded a beicio'n fwy diogel**

Caerdydd Un Blaned

Caerdydd Aer Glân Clean Air Cardiff

## Mae'r Strategaeth Systemau Trafnidiaeth Deallus yn nodi ein gweledigaeth i 2030 a'r tu hwnt

Bydd y Strategaeth yn allweddol wrth wireddu'r targedau sydd wedi'u gosod yn Caerdydd Un Blaned a'r Papur Gwyn Trafnidiaeth.


CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# Sut gall Systemau Trafnidiaeth Deallus wella ein trafnidiaeth

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd
Cardiff Evolving Transport

## Dyma rai enghreifftiau yn unig o’r ffyrdd niferus y gall Systemau Trafnidiaeth Deallus eich helpu...



### Mae Systemau Trafnidiaeth Deallus yn eich galluogi chi i wneud penderfyniadau am deithio hwylus

Mae synwyryddion ar fysus, ynghyd â data trydydd parti a thechnolegau ymyl y ffordd, yn darparu amserau teithio cywir



“Mae eich bws 15 munud yn hwyr felly rydyn ni wedi trefnu lle i chi ar y trên nesaf.  Dylech chi gyrraedd pen eich taith am 3pm”



Byddwch yn cyrraedd pen eich taith heb orfod aildrefnu tocynnau neu newid eich cynlluniau teithio



### Mae Systemau Trafnidiaeth Deallus yn gwella ansawdd eich aer

Mae synwyryddion ansawdd aer yn cael eu gosod yn strategol o amgylch y ddinas



Mae signalau traffig yn cael eu newid yn awtomatig ar sail lefelau ansawdd aer



Mae traffig yn llifo’n well trwy’r ddinas, sy’n gwella bywydau pobl ac yn lleihau cyflyrau anadlu



Mae Aer Glân Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod llygredd aer yn cyfrannu at 1,400 o farwolaethau’r flwyddyn yng Nghymru.  Er bod polisïau a chyfarwyddebau wedi gwella ansawdd aer yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llygredd aer yn dal i fod yn fygythiad ac, o bosibl, yn atebolrwydd cyfreithiol.

### Mae Systemau Trafnidiaeth Deallus yn galluogi ymyriadau cyflym

Yn 2019 roedd 5,808 o anafiadau yn deillio o ddamweiniau ffyrdd yng Nghymru, gyda 565 o’r rhai a anafwyd yn ardal Caerdydd. Er bod y duedd hirdymor yn dangos gostyngiad yn y nifer sy’n cael eu hanafu, mae lle i wella o hyd.

Mae technolegau gorfodi eisoes yn achub bywydau



Gellir defnyddio data Systemau Trafnidiaeth Deallus i nodi problemau posibl a allai effeithio ar iechyd



Mae synwyryddion ansawdd aer yn cael eu gosod yn strategol o amgylch y ddinas



Gall y mesurau hyn greu dinas fwy cynhwysol




### Mae Systemau Trafnidiaeth Deallus yn cynyddu dibynadwyedd eich bysus

Mae synwyryddion gwell sy’n gysylltiedig â dolenni canfod cerbydau yn canfod bws sy’n agosáu at set o signalau traffig



Mae’r bws a ganfuwyd yn cael blaenoriaeth wrth y goleuadau traffig gan newid y signalau i wyrdd er mwyn galluogi’r bws i barhau ar ei lwybr

Rhennir blaenoriaeth bysus ar draws y rhwydwaith signalau traffig i sicrhau bod cynifer o fysus â phosibl yn gallu cael blaenoriaeth



CRYFACH TECACH GWYRDDACH
STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF
CAERDYDD

# Gall Systemau Trafnidiaeth Deallus ein helpu i ddarparu Prifddinas i bawb

## Gall Systemau Trafnidiaeth Deallus gwell helpu i:

- Hwyluso eich taith i'r gwaith
- Darparu amrywiaeth mwy cytbwys o opsiynau teithio
- Gwneud teithio o amgylch ein dinas yn haws, yn enwedig i bobl sydd yn aml y rhai lleiaf symudol yn ein cymdeithas.
- Sicrhau bod popeth yn ein dinas ar agor ac yn hygyrch i bawb.



- Traffig ar y ffyrdd yng Nghaerdydd yw prif achos llygredd aer yn ein Dinas
- Mae effeithiau andwyol ar iechyd llygredd aer wedi'u cofnodi'n helaeth.

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd
Cardiff Evolving Transport

- Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yng Nghaerdydd, dywedodd 81.2% o'r bobl a gymerodd ran yn Arolwg Holi Caerdydd eu bod naill ai'n "bryderus iawn" neu'n "eithaf pryderus" am y newid yn yr hinsawdd.
- Mae tua 100,000 o bobl yn cymudo i Gaerdydd bob dydd – tua 80,000 ohonynt mewn ceir. Mae'n hawdd gweld pam mai trafnidiaeth yw'r mater pwysicaf i drigolion Caerdydd trwy'r amser

## Dweud eich dweud

Mae gennych gyfle i roi eich barn chi i ni trwy ein hymgynghoriad cyhoeddus

Cyhoeddiad gan Gyngor Caerdydd
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,
Caerdydd CF10 4UW

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD